

Fy enw i yw Jean. Ac roeddwn i'n gasglwr yn y cyfrifiad diwethaf, a hefyd yn gyfwelydd i bobl oedd heb lenwi eu ffurflenni.

Fe wnes i gais ar lein ar ôl i fy merch ddweud wrtha i eu bod nhw'n chwilio am bobl. Ac felly byddai angen i chi ateb cryn dipyn o gwestiynau, ticio blychau yn bennaf. Ac roedd yn ffordd weddol hawdd i mi wneud cais am rywbeth sy'n bwysig iawn.

Roeddwn i'n teimlo y gallwn i gyfrannu ato, oherwydd fy mhrofiad yn y GIG, yn gweithio gyda phobl, ac yn ceisio datrys prolemau. Ac roeddwn i'n teimlo y gallwn i wneud daioni yno. Fe gawson ni restr o'r tai roedd angen i ni geisio casglu'r ffurflenni ohonynt.

Fe wnaethon ni ymarfer ticio blychau, i wneud yn siŵr bod pob ffurflen wedi cael ei llenwi a'i llofnodi. Os nad oeddent gartref, roedd angen i ni wneud nodyn o hynny er mwyn i ni allu galw eto.

Mae pob ardal yn Portsmouth yn wahanol, mae'n amrywiol iawn. Un o'r pethau a gododd oedd problemau iaith. Ac fe welson ni fod y plant yn dda iawn yn Saesneg, ond doedd yr oedolion ddim cystal, felly fe ddaethon ni at ein gilydd a'i wneud drwy'r plant cyn belled â bod y rhiant yn llofnodi'r ffurflen. Ac fe weithiodd hynny'n dda iawn.

Fe gefais i lawer o foddhad oherwydd roeddwn i'n teimlo fy mod i'n helpu pobl. Roedd yn fy nghadw i'n brysur, a oedd yn beth da i mi hefyd, ond, ar y cyfan, roedd am fy mod yn teimlo fy mod yn helpu rhywun, wyddoch chi?

Doeddech chi byth yn gwybod wrth gnocio ar y drws, pwy fyddai'n ateb, yn y bôn. Ac roedd rhai ohonyn nhw'n anghytuno â'r cyfrifiad, felly roedd angen ceisio siarad yn gyfeillgar â nhw ac esbonio bod rhaid ei wneud yn ôl y gyfraith. Roeddwn i'n cael llawer o foddhad o ganlyniadau da, o gael eu ffurflen ganddyn nhw. Ddim ond drwy siarad â nhw.

Byddwn i'n ei argymhell oherwydd yr union bethau y cefais i allan ohono, ond mae angen i chi feddwl am yr amser hefyd. Mae'n rhaid i chi fod yn hyblyg iawn, oherwydd dydy pawb ddim gartref am naw o'r gloch yn y bore. Ac mae'n rhaid i chi wneud rhywfaint o waith gyda'r nos hefyd.

Mae'n gallu bod yn hyblyg i'ch siwtio chi, ond mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol bod yna amser pan mae'n rhaid i chi wneud pethau.